**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
**—**
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Y Llywydd

22 Mawrth 2024

Annwyl Lywydd

Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): tystiolaeth ysgrifenedig

Fel y gwyddoch, cyfeiriwyd Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ('y Bil') at y Pwyllgor Biliau Diwygio ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar ei egwyddorion cyffredinol. Rydym yn ysgrifennu i ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gennych yn rhinwedd eich rôl fel Cadeirydd Comisiwn y Senedd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes. Yn benodol, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r cwestiynau isod.

Wrth ofyn y cwestiynau hyn, rydym yn cydnabod bod cyd-ddibyniaeth rhwng cynllun a chost y Bil hwn a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) fel pecyn o ddiwygiadau. Fodd bynnag, ein rôl ni yw craffu ar bob Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn ôl eu rhinweddau, yn enwedig gan nad yw'r darpariaethau cychwyn yn y Bil yn nodi ym mha etholiad cyffredinol y Senedd y bydd darpariaethau'r Bil yn dod i rym.

1. Rydym yn nodi nad yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil hwn yn nodi unrhyw gostau nac arbedion i Gomisiwn y Senedd. Pa ran y mae Comisiwn y Senedd wedi'i chwarae o ran datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol? A allwch chi gadarnhau na ragwelir unrhyw gostau neu arbedion mesuradwy neu anfesuradwy i'r Comisiwn yn gysylltiedig â'r Bil hwn?

2. Pa baratoadau y mae Comisiwn y Senedd yn eu gwneud i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Bil? Beth yw'r amcangyfrif o gost y gweithgaredd hwn?

3. Yng ngoleuni'r cynnydd tebygol yn nifer yr Aelodau o'r Senedd sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant a babanod, a roddwyd unrhyw ystyriaeth i wneud addasiadau i ystâd y

Senedd, megis darparu cyfleuster crèche ar y safle, neu gynyddu'r ddarpariaeth parcio hygyrch, ystafelloedd teulu, a chyfleusterau ar gyfer bwydo ar y fron a thynnu llaeth?

4. A roddwyd unrhyw ystyriaeth i ffyrdd o weithio'r Senedd yn y dyfodol i fynd i'r afael â rhwystrau a allai fel arall atal menywod a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol rhag sefyll mewn etholiad, megis amserlennu busnes y Senedd, arferion gweithio hyblyg a datblygiadau technolegol arloesol?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb erbyn 12 Ebrill 2024. Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac at y Prif Weinidog.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.